



# Cynllun Pwnc Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Mai 2018**

**CYMRÆG**



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

## Cyflwyniad a chyd-destun

### Cyd-destun y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae [‘Tuag at 2020 a thu hwnt’](#) yn gynllun strategol sy'n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu'r Coleg.

Mae Cynllun Pwnc Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gosod yr egwyddorion a'r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

### Proses

Cam cyntaf y broses o lunio'r cynllun hwn oedd i sefydliadau ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae'r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

### Egwyddorion a Themâu

Tra oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnig addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i'r egwyddor honno.

### Strwythur y Cynllun

Mae'r Cynllun Pwnc Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2021/22. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o'r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n benodol i'r maes Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Prif hanfod gradd mewn Nyrsio a Bydwreigiaeth yw bodloni anghenion y claf. Mae'r cyfle i gyfathrebu a rhyngweithio gyda chleifion ar leoliadau clinigol yn rhan annatod o'r cyrsiau, a chynigir profiadau amrywiol mewn, er enghraifft, ysbytai, ysgolion, carchardai, hosbisau, canolfannau meddygol cymunedol, dramor, unedau o dan arweiniad bydwreigedd a meddygfeydd ledled Cymru. Rhoddir cyfle i'r myfyrwyr gwblhau'r cyfnodau ar leoliad drwy gyfrwng y Gymraeg pan fo hynny'n bosibl.

Mae datblygiad sylweddol iawn wedi bod yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe wedi datblygu eu darpariaeth a denu nifer cynaliadwy o fyfyrwyr drwy gyfuniad o gefnogaeth gyllidol gan y Coleg Cymraeg a buddsoddiadau mewnol.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol oddi mewn i'r Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg, e.e. drwy'r Cynllun Staffio. Mae cyfuniad o ffactorau yn effeithio ar ddyraniad grant pynciol a ph'un a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Yn 2018, mae Prifysgol Bangor yn cyrraedd trothwyon y Cynllun

Academaidd ac mae prifysgolion Abertawe a Chaerdydd yn anelu at gyrraedd y trothwyon hefyd.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd, sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn ym mhob prifysgol yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

### **Cyd-destun Llywodraeth Cymru**

1) Fframwaith strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, 'Mwy na Geiriau'.

Un o egwyddorion allweddol Mwy na Geiriau yw darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Ystyr 'Y Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i unigolyn orfod gofyn amdano. Mae'n golygu creu newid mewn diwylliant, gan gymryd y cyfrifoldeb am dderbyn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg oddi ar yr unigolyn a'i osod ar ddarparwyr y gwasanaethau. O fewn y maes gofal, mae'n hollbwysig fod pob unigolyn yn cael y cyfle i gyfleu ei deimladau a'i brofiadau mwyaf personol drwy gyfrwng ei famiaith. Dim ond wrth sicrhau y rhoddir pob cyfle i'r unigolyn i fynegi ei hun – a chael ei ddeall drwy gyfrwng yr iaith a ddewisa – y gellir trefnu'r gofal, y gefnogaeth a'r gwasanaeth priodol ar ei gyfer.

2) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn rhestru saith o nodau ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Mae un o'r nodau hyn yn anelu at sicrhau 'Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

3) Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru, sy'n dod â'r hawliau sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ynghyd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn fyw i bobl hŷn yng Nghymru. Yn y Datganiad, eglurir bod gan bobl hŷn yr hawl i ddefnyddio'r iaith sydd orau ganddynt i gyfathrebu. Pan fo siaradwyr Cymraeg yn dymuno ymgysylltu â gwasanaethau iechyd yn y Gymraeg, dylai fod ganddynt y rhyddid i wneud hynny.

4) Deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant

Ceir nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol, megis Deddf Plant 1989 a 2004, yn diogelu hawliau plant. Mae hawliau ieithyddol plant yn cael eu cryfhau gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n rhoi effaith bellach yng Nghymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r Confensiwn yn diogelu hawliau plant i ddefnyddio eu hiaith eu hunain.

5) Gofal Iechyd Darbodus

Mae'r rhwystr iaith sy'n bodoli rhwng siaradwyr Cymraeg a darparwyr gwasanaethau yn achosi anawsterau clir wrth ddarganfod anghenion pobl. Wrth gyflwyno gwasanaeth cyfrwng Cymraeg, caiff y rhwystr hwn ei ddileu. Bydd hyn yn helpu darparwyr gwasanaethau i fodloni egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, sef 'peidio â gwneud niwed' a 'chynnal yr ymyriad lleiaf sy'n ofynnol'.

### **Safonau'r Gymraeg**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau ymddygiad ar y Gymraeg. Ar 1 Ebrill 2018, disodlwyd Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol y prifysgolion gan Safonau'r Gymraeg. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai prifysgolion drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. O ganlyniad i'r safonau hyn, ers 1 Ebrill 2018, mae gan fyfyrwyr hawl i gael tiwtor personol sy'n siarad

Cymraeg ac i sefyll arholiadau ac asesiadau yn y Gymraeg. Mae'n briodol nodi'r newidiadau hyn wrth drafod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhrifysgolion Cymru.

### **Cyd-destun y cyrsiau**

Mae cynnwys cyrsiau Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu pennu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), sef y corff sydd yn rheoleiddio'r proffesiynau. Maent yn penodi safonau addysg, sydd yn llywio cynnwys a chynllun y rhaglenni ac yn dynodi cymwyseddau nyrsys a bydwagedd. Maent hefyd yn cymeradwyo sefydliadau addysg a rhaglenni ac yn cynnal bas data o gyrsiau sydd wedi eu cymeradwyo. Mae'r corff hefyd yn sicrhau ansawdd y rhaglenni ac yn cofrestru nyrsys a bydwagedd wedi iddynt gwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus. Ni all unrhyw nyrs na bydwraig sy'n ymarfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon weithio os nad ydynt ar y gofrestr. Mae'r NMC yn ymgynghori â chleifion a'r cyhoedd am y safonau y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu cyrraedd er mwyn ymuno â'r gofrestr.

Mae sefydliadau addysg yn recriwtio myfyrwyr gan ddefnyddio safonau'r NMC ac yn asesu os ydynt yn addas i ddilyn gyrfa ym myd nyrsio a bydwreigiaeth. Mae cynnwys y cwrs nyrsio yn cael ei ailsafoni gan yr NMC ar hyn o bryd a bydd y cwricwlwm yn newid yn 2020. Byddwn yn mynd i'r afael â'r newid yn y cwricwlwm pan fydd hyn yn hysbys. Mae myfyrwyr yn treulio hanner eu cwrs yn astudio yn y brifysgol a'r hanner arall mewn lleoliadau gofal iechyd, lle y mae disgwyl iddynt gael profiadau eang a gwirioneddol o ofalu am gleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r staff mewn sefydliadau addysg a lleoliadau gofal iechyd yn sicrhau bod myfyrwyr yn gofalu am gleifion mewn ffordd ddiogel a'u bod yn cael eu mentora a'u goruchwylio mewn lleoliadau gwaith. Mae angen i bob mentor, cyn iddynt allu goruchwylio myfyrwyr, gael o leiaf blwyddyn o brofiad ar ôl cofrestru gyda'r NMC. Mae'n rhaid i'r mentoriaid hefyd arbenigo yn yr un maes â'r myfyrwyr, e.e. nyrsio plant.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr allu ymweld ag ardaloedd gwahanol lle y darperir gofal gan fod hyn yn eu helpu i ddatblygu a chymhwysu. Yn anad dim, mae'n rhaid i nyrsys dan hyfforddiant ddangos y gwerthoedd a'r ymddygiad cywir a bod yn llawn trugaredd a pharch yn unol â Chod yr NMC. Hefyd, dylid nodi bod cyrsiau nyrsio oedolion a chyrtsiau iechyd meddwl yn cael eu cynnig ddwywaith y flwyddyn er mwyn cwrdd ag anghenion cynllunio'r gweithle ac i gwrdd ag anghenion cyllidwyr y cyrsiau iechyd yng Nghymru.

### **Coleg Brenhinol Nyrsio (RCN)**

Mae'r RCN yn cynrychioli nyrsys a'r proffesiwn nyrsio, yn hyrwyddo rhagoriaeth wrthymarfer, ac yn dylanwadu ar bolisiau iechyd. Mae'n weithredol o ran cynnal safonau nyrsio, addysg ac ymarfer. Yn 2000, cyhoeddwyd cynllun strategol ar addysg, bydwreigiaeth ac addysg ymweliadau iechyd nyrsio o'r enw 'Creu'r potential (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000). Yn y strategaeth hon, ymdrinnir ag anghenion addysgiadol y gweithlu presennol a'r dyfodol. Mae angen i'r genhedlaeth nesaf o nyrsys dderbyn addysg sy'n arwain at ddyfodol sicr a chadarn, gan feithrin nyrsus a chanddynt sgiliau i ddatrys problemau, i wneud penderfyniadau clinigol, ynghyd ag i fynegi barn broffesiynol. Disgwylir iddynt hefyd gwerthuso ymchwil a'i gymhwyso at y byd proffesiynol.

Mae addysg hefyd yn datblygu ar y cyd â galluoedd, gwybodaeth ac ymddygiadau clinigol hanfodol. Bwriedir y bydd y Strategaeth Addysg hon yn alluogwr allweddol ar gyfer sicrhau bod addysg, hyfforddiant a pharatoad priodol yn tanategu ymarfer nyrsio i'r dyfodol.

Mae'r cyrsiau BN yn berthnasol i faes penodol sef Nyrsio Oedolion, Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl, a Phlant a Phobl Ifanc. Mae'r radd Baglor Nyrsio yn addas ar gyfer y sawl sy'n dymuno dilyn gyrfa o weithio gyda phobl o bob oed sy'n wynebu heriau iechyd neu sy'n byw gydag anableddau dysgu ac sydd angen gofal nyrsio proffesiynol.

Drwy gwblhau'r cwrs BMid yn llwyddiannus, cofrestrir gyda'r NMC fel bydwraig gofrestredig.

Sefyllfa Gyfredol (2016/17) <sup>1</sup>			
Sefydliad Addysg Uwch	Darpariaeth	Staff	Myfyrwyr
Prifysgol Caerdydd	O leiaf 40 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg yn y maes Nyrsio Oedolion yn unig. Mae rhywfaint o ddarpariaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar y cyrsiau Nyrsio Iechyd Meddwl, Nyrsio Plant a Phobl Ifanc a Bydwreigiaeth.	Mae 8.5 aelod o staff yn siarad Cymraeg yn yr adran.  Mae 4 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae 67 o fyfyrwyr ar draws yr ysgol yn siarad Cymraeg.  Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
Prifysgol Abertawe	O leiaf 40 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd Nyrsio Oedolion, Iechyd Meddwl a Nyrsio Plant. Nid oes cwrs Nyrsio Anableddau Dysgu ar gael yn y brifysgol. Mae cyfleoedd i'r myfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn lleoliadau clinigol. Mae mentora personol hefyd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.  <b>BM Bydwreigiaeth</b>  O leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar y cwrs Bydwreigiaeth.	Mae 8 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg.  Mae 2 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.    Mae 0.8 (CALI) aelod o staff yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae 256 o fyfyrwyr ar draws yr ysgol yn siarad Cymraeg.  Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.    O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

<sup>1</sup> Data gan y sefydliadau

Prifysgol Bangor	Cynigir 120 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg yn y maes nyrsio oedolion, iechyd meddwl a nyrsio plant ac anableddau dysgu. Prifysgol Bangor yw'r unig brifysgol sy'n cynnig cwrs anableddau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru.	Mae 13 aelod o staff CALI yn siarad Cymraeg.  Mae 3 aelod o staff yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae 315 o fyfyrwyr ar draws yr ysgol yn siarad Cymraeg.  O leiaf 90 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
<i>Prifysgol De Cymru</i>	<i>Rhywfaint o ddarpariaeth ar y cyrsiau Nyrsio (Oedolion, Iechyd Plant, Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl).</i>	<i>Mae 2 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg.  Mae 1 aelod o staff (CALI) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>	<i>Mae 72 o fyfyrwyr ar draws yr ysgol yn siarad Cymraeg.  Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>

## Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol

### Profiad Myfyrwyr

Mae profiad y myfyriwr yn ganolog i astudio gradd Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ddwyieithog.

Ym mhrifysgolion Abertawe, Bangor, Caerdydd a De Cymru, cynigir amrediad o brofiadau i fyfyrwyr gan gynnwys lleoliadau clinigol yn y byrddau iechyd sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol honno ledled Cymru. Rhoddir cyfle i'r myfyrwyr elwa o amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys cyfnodau yn y gymuned, cyfnodau mewn unedau gofal dwys, ynghyd â mewn canolfannau adferiad. Mae gan bob myfyriwr hawl i gyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a chael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg.

Yn ychwanegol i hyn, rhoddir cyfle i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe i fynd ar leoliad o'u dewis nhw am bedair wythnos. Mae'n bosibl iddynt ddewis lleoliadau mewn ardaloedd gwledig ac mae lleoliadau cyfrwng Cymraeg ar gael yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Mae lleoliadau cyfrwng Cymraeg hefyd ar gael mewn cartrefi nyrsio yn Sir Benfro a Cheredigion. Mae mentora cyfrwng Cymraeg hefyd ar gael ar leoliadau. Cynigir hefyd gyfleoedd i fyfyrwyr astudio dramor yn Ewrop gan Brifysgol Abertawe, cyfleoedd i deithio a chyfoethogi profiadau trwy gyfrwng raglenni diwylliannol yn Brunei, Malay, Japan ac India, a chyfleoedd gwirfoddoli yn India a Zambia.

Ym Mhrifysgol Abertawe mae'n bosib rhoi adborth lleoliad ar-lein yn ddwyieithog ac mae pob myfyriwr yn cwblhau cwrs ymwybyddiaeth iaith o'r enw 'Iechyd da'.

Mae rhai myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn dewis mynd ar leoliad o'u dewis nhw am bedair wythnos fel rhan o gyfleoedd POLO (practice optional learning opportunities) y cwrs. Mae myfyrwyr hyd yn hyn wedi dewis mynd i Batagonia a Sri Lanka er enghraifft, ac eraill wedi dethol mynd i orllewin neu ogledd Cymru a Lerpwl. Yn ogystal, mae pob myfyriwr yng Nghaerdydd yn cael y dewis o gwblhau cwrs iaith Cymraeg i Bawb am ddim – mae'r cwrs hwn yn cael ei addasu ar gyfer myfyrwyr iechyd ar hyn o bryd er mwyn ei wneud yn fwy perthnasol i'w gyrfaoedd yn y pen draw. Tra bod rhai myfyrwyr Prifysgol Bangor yn dewis mynd i Ghana, Romania a Chambodia. I fyfyrwyr Prifysgol Bangor sy'n mynd ar leoliadau'n lleol mae profiadau dwyieithog yn digwydd yn naturiol o fewn y cymunedau ac yn datblygu eu hyder i ymarfer drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 50% o'r cwrs BM Bydwreigiaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft, oherwydd bod y lleoliadau clinigol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.



	<p>Mae Prifysgol De Cymru wedi datblygu saith pecyn dysgu gwerth 5 credyd yr un, sy'n cael eu cynnig i fyfyrwyr ar y cwrs Nyrsio (Oedolion). Mae'r rhain yn adnoddau sy'n datblygu gwybodaeth myfyrwyr yn seiliedig ar sefyllfaoedd realistig, ac yn cyfrif tuag at fodiwlau yn yr ysgol Nyrsio. Mae myfyrwyr sy'n astudio Nyrsio ym Mhrifysgol De Cymru yn derbyn nifer o brofiadau yn ystod eu cyfnod yno. Yn ogystal â'r adnoddau a'r cyfleusterau ardderchog, gan gynnwys y Ganolfan Efelychu Clinig sy'n efelychu ward a chyfleusterau ysbyty, mae cyfle i'r myfyrwyr elwa o amrywiaeth o leoliadau gwaith estynedig yn ystod y tair blynedd y maent yn astudio, a hynny mewn lleoliadau gwahanol bob tro (ac eithrio lleoliad hir, sy'n gyfnod o 3 mis lle y mae myfyrwyr yn dychwelyd i'r un lleoliad ambell waith).</p>
<p><b>Darlithwyr</b></p>	<p>Mae'r nifer o ddarlithwyr sy'n darlithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y maes Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cynyddu. Serch hynny, mae'n her i recriwtio darlithwyr sydd wedi cymhwyso mewn meysydd penodol, e.e. Nyrsio Plant, Nyrsio Anableddau Dysgu a Iechyd Meddwl. Yn ehangach na hynny, mae'n her i recriwtio darlithwyr dwyieithiog a chanddynt y cymwysterau sy'n ofynnol mewn rhai sefydliadau, e.e. profiad clinigol perthnasol, chymwysterau dysgu a gradd uwch. Yn ogystal, mae newid pensiwn a chytundebau tymor byr yn ei gwenud yn llai deniadol i rai a fyddai'n ystyried darlithio yn hytrach na gwneud gwaith clinigol. Mae angen hysbysebu swyddi ar y llwyfannau proffesiynol perthnasol.</p> <p>Mae'n rhaid i'r tiwtoriaid personol fod wedi cymhwyso mewn meysydd penodol e.e. Nyrsio Plant a Nyrsio Anableddau Dysgu, er mwyn dysgu elfennau clinigol y pwnc ac mae hyn yn her ychwanegol wrth ddarparu mentoraid cyfrwng Gymraeg.</p> <p>Gall hyder rhai darlithwyr i ddysgu ac i farcio drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn faen tramgwydd. Yn ogystal â'r darlithwyr a benodwyd i ddarlithio drwy gyfrwng y Gymraeg, ceir darlithwyr eraill yn yr adrannau sy'n medru'r iaith ond heb fod yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith yn addysgiadol. O gefnogi'r darlithwyr hyn, gallant fod yn gyfraniad gwerthfawr at y ddarpariaeth Gymraeg.</p> <p>Mae Prifysgol Bangor wedi sefydlu cwrs ôl-radd Academydd Clinigol, a bydd dwy nyrs yn dechrau'r cwrs ym mis Ebrill, 2018. Bydd y cwrs hwn yn meithrin academyddion clinigol maes o law ond bydd yn cymryd amser iddynt gymhwyso.</p>
<p><b>Cwricwlwm Bydwreigiaeth</b></p>	<p>Ar hyn o bryd, mae'r radd Bydwreigiaeth yn seiliedig ar flociau astudio ac ymarfer, ac mae'r dysgu ar ffurf darlithoedd a seminarau, grwpiau trafod, chwarae rôl, ac ymarferion efelychu. Caiff hyn ei gefnogi gan addysg mewn ymarfer clinigol gan athrawon clinigol a mentoriaid. Mae ymweliadau clinigol gan diwtoriaid</p>

<p><b>Cwricwlwm Nyrsio</b></p>	<p>ar gyfer tiwtorialau un i un mewn ymarfer yn cynnal y cysylltiadau agos rhwng tîm bydwreigiaeth y Coleg a'r partneriaid ymarfer.</p> <p>Caiff myfyrwyr eu hasesu trwy aseiniadau ysgrifenedig, arholiadau, ac asesiadau ymarferol neu Arholiadau Clinigol Gwrthrychol Strwythuredig. Gwneir asesiadau mewn ymarfer clinigol drwy bortffolio clinigol a thrwy asesu ymarfer.</p> <p>Mae myfyrwyr ar y cwrs BMid (Anrh) Bydwreigiaeth yn graddio fel gweithwyr proffesiynol sydd â'r arbenigedd clinigol a'r sgiliau rhyngpersonol sydd eu hangen er mwyn sicrhau lles corfforol ac emosiynol menywod yn ystod beichiogrwydd, genedigaeth a mamolaeth gynnar. Mae'r rhaglen wedi'i dylunio er mwyn adeiladu ar gryfderau myfyrwyr Bydwreigiaeth fel eu bod yn datblygu i fod yn ymarferwyr proffesiynol, a chryf eu cymhelliad.</p> <p>Mae myfyrwyr bydwreigiaeth yn datblygu lefel uchel o hunanymwybyddiaeth a sensitifrwydd tuag at fenywod a theuluoedd trwy gydol y rhaglen. Mae'r tîm Bydwreigiaeth ac Iechyd Atgenhedlu yn cynnig ystod eang o brofiad a diddordebau pwnc.</p> <p>Mae'r cwrs yn datblygu creadigrwydd a gwreiddioldeb mynegiant, a'r gallu i ddadansoddi a defnyddio ymchwil. Hefyd, mae myfyrwyr yn dysgu sut i werthuso a beirniadu astudiaethau ymchwil, fel eu bod yn defnyddio ymchwil yn eu hymarfer mewn modd meddylgar a beirniadol. Disgwylir i fyfyrwyr gymryd cyfrifoldeb dros eu datblygiad personol a phroffesiynol eu hunain. Disgwylir i'r graddedigion fod yn ddysgwyr gydol oes; yn hyderus, yn gymwys ac yn atebol am eu hymarfer eu hunain fel bydwreigedd, gan ymateb i heriau ymarfer cyfoes.</p> <p>Mae cynnwys y cwrs nyrsio yn cael ei ailddilysu gan y prifysgolion er mwyn cwrdd â Safonau Nyrsio cyn Cofrestru newydd y NMC sydd yn cael eu cadarnhau ar hyn o bryd. Pan fyddant yn cael eu cyhoeddi, bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei lansio yn 2020. Ar hyn o bryd, mae'r radd nyrsio yn seiliedig ar flociau astudio ac ymarfer, ac mae'r dysgu ar ffurf darlithoedd a seminarau, grwpiau trafod, chwarae rôl, cyfarfodydd un i un gyda thiwtor personol Cymraeg ac ymarferion efelychu. Caiff hyn ei gefnogi gan addysg mewn ymarfer clinigol gan athrawon clinigol a mentoriaid. Caiff myfyrwyr eu hasesu trwy asesiadau ysgrifenedig, arholiadau, ac asesiadau ymarferol neu Arholiadau Clinigol Gwrthrychol Strwythuredig (OSCA). Gwneir asesiadau mewn ymarfer clinigol drwy bortffolio clinigol a thrwy asesu ymarfer.</p>
--------------------------------	--

	<p>Bydd pob prifysgol yn creu eu cwricwlwm eu hunain ond bydd yr asesiad cyflawniad clinigol yn unol â chanllawiau dogfen Safonau ar gyfer Addysg Nyrsio cyn Cofrestru ac mae wedi'i gynllunio ar Gymru gyfan. Ar hyn o bryd mae rhaglen y BN (Anrh) yn sicrhau bod y myfyrwyr yn bodloni gofynion theori ac ymarfer y pedair prif thema sy'n cael eu penodi gan y NMC (2010):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwerthoedd proffesiynol</li> <li>• Cyfathrebu a sgiliau rhyngpersonol</li> <li>• Ymarfer nyrsio a gwneud penderfyniadau</li> <li>• Arweinyddiaeth, rheolaeth a'r gallu i gyd-weithio.</li> </ul> <p>Mae clystyrau 'Sgiliau Hanfodol' hefyd wedi eu pennu gan yr NMC (2010) ac sydd yn orfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofal, trugaredd a chyfathrebu</li> <li>• Agweddau sefydliadol gofal</li> <li>• Haint, atal a rheoli</li> <li>• Maeth a rheoli hylif</li> <li>• Rheoli meddyginiaethau.</li> </ul> <p>Ar y cyrsiau Nyrsio (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc, Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl), mae rhai agweddau yn cael eu haddysgu ar y cyd, gyda 80% o'r cwricwlwm yn generig yn y flwyddyn gyntaf. Wrth i'r cwrs fynd rhagddo, mae llai o elfennau yn generig ac mae disgwyl i fyfyrwyr ddatblygu llawer mwy o arbenigedd o mewn eu meysydd arbenigol. Felly mae'r cwrs yn cael ei rannu 50/50 generig/arbenigol ym mlwyddyn dau a 20/80 generig/arbenigol yn y flwyddyn olaf. Hefyd, mae'n rhaid ystyried bod perfformiad clinigol myfyrwyr yn cael eu mesur yn erbyn cymwyseddau sydd yn ymwneud â safonau generig a safonau maes arbenigol y myfyriwr.</p> <p>Mae Prifysgol De Cymru yn cynnig cyfleoedd dysgu cyfunol ar gyfer myfyrwyr Nyrsio, ac yn datblygu modiwl Cymraeg gwerth 20 credyd, 'Cyflwyniad i Ymarfer ar sail Tystiolaeth', a fydd yn cael ei gynnig ar-lein ar gyfer myfyrwyr Lefel 4. Cynigir hwn i fyfyrwyr ym mis Medi 2019.</p>
<p><b>Canlyniadau Myfyrwyr</b></p>	<p>Mae arolygon cyflogaeth i raddedigion yn y maes Nyrsio a Bydwreigiaeth yng Nghymru yn iach iawn. Mae 99% o raddedigion cwrs Nyrsio Prifysgol Abertawe mewn swydd broffesiynol neu swydd reoli chwe mis ar ôl graddio. Yn ogystal, mae 100% o raddedigion cwrs Bydwreigiaeth Prifysgol Abertawe mewn swydd broffesiynol neu swydd reoli chwe mis ar ôl graddio. Mae 100% o raddedigion cwrs Nyrsio Prifysgol Bangor mewn swydd chwe mis ar ôl graddio, ac mae 98% o raddedigion cwrs Nyrsio Prifysgol Caerdydd</p>

	<p>mewn swydd chwe mis ar ôl graddio. Mae 100% o raddedigion Nyrsio a Bydwreigiaeth Prifysgol De Cymru mewn swydd neu astudiaeth bellach yn ystod y chwe mis ar ôl graddio (Arolwg Graddedigion 2016). Mae system opsiynol bwrsariaeth newydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y rhai sy'n ei derbyn yn ymrwmo i weithio yng Nghymru am ddwy flynedd wedi graddio.</p>
<p><b>Adnoddau</b></p>	<p>Dros y blynyddoedd diwethaf, datblygwyd adnoddau sy'n berthnasol i'r maes iechyd o dan gefnogaeth y Coleg Cymraeg, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ap Gofalu trwy'r Gymraeg (Prifysgol Abertawe, 2013 a diweddariad yn 2018)</li> <li>• Sgiliau Gofal Sylfaenol (Prifysgol Caerdydd 2016)</li> <li>• Modiwl Iechyd a'r modelau biofeddygol a bioseicogymdeithasol (Prifysgol Bangor 2017)</li> </ul> <p>Cynhyrchwyd llyfr poced i fyfyrwyr gan Brifysgol De Cymru a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg yn 2013. Mae'n llyfryn dwyieithog gyda geirfa berthnasol ar gyfer y sector iechyd ac mae pob myfyriwr ar y cyrsiau Iechyd a Gofal ym Mhrifysgol De Cymru yn cael copi o'r llyfryn am ddim. Diwygiwyd y llyfr ac fe'i hailgraffwyd ym mis Chwefror 2018 yn sgil galw gan ysgol Iechyd y Brifysgol a gweithwyr gofal Iechyd a gofal Cymdeithasol. Bu'r Uned Gymraeg yn cydweithio â Phrosiect Cysylltu Dysgwyr y Brifysgol, sy'n rhan o WULF (Wales Union Learning Fund), sef Cronfa Ddysgu Undebau Cymru. Mae Prifysgol De Cymru hefyd wedi datblygu adnoddau ar gyfer Nyrsio a Bydwreigiaeth mewn cydweithrediad â'r Coleg, megis DVD rhyngweithiol Academi Cynhadledd Achos, a DVD Torri Newyddion Drwg. Mae'r adnoddau hyn ar gael ar y Porth.</p> <p>Mae myfyrwyr yn eiddgar i ddefnyddio adnoddau sy'n cefnogi eu profiadau ymarferol a chlinigol yn hytrach nag adnoddau mwy academiaidd eu naws.</p> <p>Mae galw am ddeunyddiau gweledol, megis posteri, yn y maes er mwyn sicrhau bod naws ddwyieithog yn y dosbarthiadau dysgu.</p> <p>Mae angen sicrhau bod bathodynau adnabod, sy'n adlewyrchu tueddiadau ac ymgyrchoedd allanol megis 'Hello name is ...', ar gael yn ddwyieithog.</p> <p>Gan fod y cwriciwlwm Nyrsio a Bydwreigiaeth yn newid yn 2020, mae cyfle yma i gynhyrchu adnoddau perthnasol ar lefel genedlaethol. Mae'r cwriciwlwm newydd yn datgan y bydd dau atodiad yn gyffredin i</p>

	<p>bob cwrs prifysgol yn y maes Nyrsio, sef cyfathrebu ac ymarfer clinigol. Dyma gyfle i greu adnoddau 'cyfathrebu' ac 'ymarfer clinigol' a all gefnogi'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob prifysgol.</p>
<p><b>Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)</b></p>	<p>Yn ôl <i>'The Complete University Guide 2018'</i>, mae 100% o raddedigion cyrsiau Nyrsio Prifysgol Bangor mewn swydd chwe mis ar ôl graddio, ac mae 97% o raddedigion cyrsiau Nyrsio Prifysgol Abertawe mewn swydd chwe mis ar ôl graddio, a 98% o raddedigion cyrsiau Nyrsio Prifysgol Caerdydd mewn swydd chwe mis ar ôl graddio.</p> <p>Mae cyfleoedd eang i weithio mewn gwahanol feysydd ar ôl graddio. Ceir cyfleoedd i weithio i fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r gwasanaeth iechyd, gwasanaethau iechyd rhyngwladol ac mewn sefydliadau addysg uwch. Mae'n bosib gweithio fel nyrs, ymarferydd nyrsio uwch, ymwelydd iechyd, ymchwilydd, rheolwr ward, nyrs ymgynghorol neu fel darlithydd.</p> <p>Yn 2016, yn ôl CNB, roedd tua 665,841 o nyrsys yn gweithio yn y DU; cynnydd o 23% ers 2006. Yn ystod y 12 mis, roedd 8,300 o swyddi nyrsio yn cael eu hysbysebu ar-lein. Dyma'r swydd fwyaf cyffredin a gafodd ei hysbysebu ar-lein (Labour Insights 2017) Yn ôl Gyfa Cymru, bydd galw cynyddol am nyrsys yn y blynyddoedd nesaf a chynyddwyd y nifer o lefydd hyfforddi nyrsio o 13% yn 2017 gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae 100% o raddedigion Bydwreigiaeth yn gyflogedig mewn swydd broffesiynol neu swydd reoli 6 mis ar ôl graddio (Unistats 2017).</p> <p>Yn ddi-os, mae'r angen am sgiliau Cymraeg yn y maes Nyrsio a Bydwreigiaeth yn bwysicach nag erioed. Yn ôl strategaeth Llywodraeth Cymru, Mwy na Geiriau (2012): "Mae'n bwysig cydnabod mai dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl gyfathrebu eu hangen am ofal yn effeithiol". Un o egwyddorion allweddol Mwy na Geiriau yw darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Ystyr 'Y Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i unigolyn orfod gofyn amdano. Mae'n golygu creu newid mewn diwylliant, gan gymryd y cyfrifoldeb am dderbyn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg oddi ar yr unigolyn a'i osod ar ddarparwyr y gwasanaethau.</p> <p>Yn y maes iechyd, mae'n hollbwysig bod unigolion yn cael y cyfle i gyfleu eu teimladau a'u profiadau mwyaf personol drwy gyfrwng eu mamiaith. I'r darpar nyrs a'r fydwraig, mae astudio'r cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn fanteisiol wrth baratoi at y gweithle. Mae galw oddi wrth fyrddau iechyd ledled Cymru am nyrsys a bydwragedd sy'n medru'r Gymraeg. Wrth recriwtio, er enghraifft, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cydnabod Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mhortffolio myfyrwyr fel tystiolaeth o'u gallu i gyfathrebu â chleifion. Bydd y safonau iaith arfaethedig a</p>

	<p>fydd yn cael eu gosod ar y sector iechyd gan Gomisiynydd yr Iaith yn 2018 yn debygol o gynyddu'r galw am wasanaethau Cymraeg ac yn golygu y bydd unigolion yn disgwyl medru derbyn gwasanaethau Cymraeg. Yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Iaith yn ddiweddar, mae canran y staff yn y maes iechyd meddwl sy'n gallu siarad Cymraeg yn isel iawn, gyda'r ganran cyn ised â 1.9% mewn rhai byrddau iechyd. Mae'r angen am siaradwyr Cymraeg yn y maes hwn yn glir.</p>
<p><b>Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)</b></p>	<p>Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr ar gyrsiau gradd Nyrsio a Bydwreigiaeth yn dilyn llwybr traddodiadol o'r ysgol neu goleg addysg bellach i astudio ar lefel gradd. Wedi dweud hynny, mae nifer sylweddol o fyfyrwyr Nyrsio a Bydwreigiaeth yn penderfynu cychwyn ar eu cyrsiau yn fyfyrwyr aeddfed ac yn ailafael mewn addysg ffurfiol wedi dilyn gradd neu swydd eisoes. Dylid hefyd nodi bod rhai nyrsys a bydwraedd yn ailymuno â'r proffesiwn trwy astudio cwrs 'dychwelyd i ymarfer' sydd ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor. Rhagwelir y bydd angen ymgynghori ymhellach â cholegau addysg bellach er mwyn sefydlu galw a dilyniant, ynghyd ag i amlinellu sut mae hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg ymhellach. Mae nifer y myfyrwyr sy'n ymgeisio i gael lle ar gyrsiau nyrsio wedi syrthio yn y blynyddoedd diweddar, felly bydd angen marchnata'r pwnc o bosibl. Mae digwyddiadau llwyddiannus yng Ngholeg Gŵyr Abertawe ac yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro eisoes wedi digwydd er mwyn hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y maes Nyrsio a Bydwreigiaeth ym Mhrifysgolion Caerdydd ac Abertawe. Mae rhai o fewn y proffesiwn yn galw ar brifysgolion i sicrhau bod canran o'r myfyrwyr sy'n cael eu derbyn yn flynyddol yn Gymry, gan honni y byddai hyn yn sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p>

<b>Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol</b>			
<b>Nod gweithredu</b>	<b>Targedau blwyddyn (2017/18)</b>	<b>Targedau 3 mlynedd (2019/20)</b>	<b>Targedau 5 mlynedd (2021/22)</b>
1. Darpariaeth	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog gan gynnwys o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg.	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog gan gynnwys o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg.	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog gan gynnwys o leiaf 80 credyd yn y Gymraeg.
2. Cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd	430 o fyfyrwyr	460 o fyfyrwyr	500 o fyfyrwyr
3. Cynyddu'r nifer o staff sy'n addysgu yn y Gymraeg	4 aelod o staff	6 aelod o staff	8 aelod o staff
4. Dilyniant	Cynyddu'r ddarpariaeth Lefel A / Galwedigaethol cyfrwng Cymraeg mewn Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Cymdeithaseg, Seicoleg, Gwyddorau Meddygol a Gofal ac Iechyd.	Parhau i gynyddu'r ddarpariaeth Lefel A / Galwedigaethol cyfrwng Cymraeg mewn Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Cymdeithaseg, Seicoleg, Gwyddorau Meddygol a Gofal ac Iechyd.	Parhau i gynyddu'r ddarpariaeth Lefel A / Galwedigaethol cyfrwng Cymraeg mewn Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Cymdeithaseg, Seicoleg, Gwyddorau Meddygol a Gofal ac Iechyd.

**Datblygu'r maes: targedau sefydliadol**

<b>Sefydliad</b>	<b>Nod gweithredu</b>	<b>Targedau blwyddyn (2017/18)</b>	<b>Targedau 3 mlynedd (2019/20)</b>	<b>Targedau 5 mlynedd (2021/22)</b>
<b>Prifysgol Caerdydd (Nyrso a Bydwreigiaeth)</b>	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ymhob blwyddyn mewn nyrsio oedolion.  Rhywfaint o ddarpariaeth mewn Nyrsio lechyd Meddwl, Nyrsio Plant a Phobl Ifanc a Bydwreigiaeth.	O leiaf 40 credyd ymhob blwyddyn mewn nyrsio oedolion.  Rhywfaint o ddarpariaeth mewn Nyrsio lechyd Meddwl, Nyrsio Plant a Phobl Ifanc a Bydwreigiaeth.	O leiaf 40 credyd ymhob blwyddyn mewn Nyrsio Oedolion, Nyrsio lechyd Meddwl, Nyrsio Plant a Phobl Ifanc a Bydwreigiaeth.
	Myfyrwyr (fel cyfanswm ar draws y cyrsiau nyrsio a bydrweigiaeth i gyd)	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn	O leiaf 20 ym mhob blwyddyn
	Profiad Myfyrwyr	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.	Parhau i ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.	Parhau i ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.
	Staff	3.3 aelod o staff	5 aelod o staff	6 aelod o staff



<b>Prifysgol Abertawe (Nyrsio)</b>	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn.
	Myfyrwyr	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn
	Profiad Myfyrwyr	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.	Parhau i ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.	Parhau i ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.
	Staff	Cynnal nifer y darlithwyr presennol sy'n dysgu trwy'r Gymraeg/yn ddwyieithog.	Penodi darlithydd newydd i gefnogi a datblygu'r ddarpariaeth.	4 aelod o staff
<b>Prifysgol Abertawe (Bydwreigiaeth)</b>	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 60 credyd ym mhob blwyddyn.
	Myfyrwyr	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn	O leiaf 8 ym mhob blwyddyn	O leiaf 8 ym mhob blwyddyn
	Profiad Myfyrwyr	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.	Parhau i ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.	Parhau i ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy fentora.

	Staff	Cynnal nifer y darlithwyr presennol sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog.	Penodi darlithydd newydd i gefnogi a datblygu'r ddarpariaeth.	Cynnal nifer y darlithwyr presennol sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog.
<b>Prifysgol Bangor</b>	Darpariaeth	Parhau i gynnig 120 credyd ym mhob blwyddyn.	Parhau i gynnig 120 credyd ym mhob blwyddyn.	Parhau i gynnig 120 credyd ym mhob blwyddyn.
	Myfyrwyr	O leiaf 120 ym mhob blwyddyn.	O leiaf 120 ym mhob blwyddyn.	O leiaf 120 ym mhob blwyddyn.
	Profiad Myfyrwyr	Cyflwyno darpariaeth dysgu Cymraeg fel bod pob myfyriwr Nyrsio a Bydwreigiaeth israddedig yn cyrraedd o leiaf lefel 2.	Parhau i gyflwyno darpariaeth dysgu Cymraeg fel bod pob myfyriwr nyrsio a bydwreigiaeth israddedig yn cyrraedd o leiaf lefel 2.	Parhau i gyflwyno darpariaeth dysgu Cymraeg fel bod pob myfyriwr Nyrsio a Bydwreigiaeth israddedig yn cyrraedd o leiaf lefel 2.
	Staff	Cynnal nifer y darlithwyr presennol sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog.	Penodi 2 ddarlithydd newydd lle nad oes staff cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.	18 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog yn yr adran.
<b>Prifysgol De Cymru (Nyrsio Oedolion)</b>	<i>Darpariaeth</i>	<i>Rhywfaint o ddarpariaeth ym mhob blwyddyn</i>	<i>O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn</i>	<i>O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn</i>
	<i>Myfyrwyr</i>	<i>O leiaf 2 ym mhob blwyddyn</i>	<i>O leiaf 4 ym mhob blwyddyn</i>	<i>O leiaf 6 ym mhob blwyddyn</i>

	<i>Profiad Myfyrwyr</i>	<i>Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol, trwy fentora, a thrwy ddysgu cyfunol.</i>	<i>Parhau i ddatblygu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol, trwy fentora, a thrwy ddysgu cyfunol.</i>	<i>Parhau i ddatblygu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol, trwy fentora, a thrwy ddysgu cyfunol.</i>
	<i>Staff</i>	<i>1 aelod o staff</i>	<i>2 aelod o staff</i>	<i>3 aelod o staff</i>